



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2019

## **Cyfarwyddyd ar ddefnyddio biniau storio dros dro / biniau Dolav i gadw sgil-gynhyrchion anifeiliaid pan fydd nifer fawr o farwolaethau yn y sectorau defaid, dofednod a moch**

Rhaid i bawb sy'n trafod sgil-gynhyrchion anifeiliaid gydymffurfio â Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yr UE 1069/2009. Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: [Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yr UE 1069/2009](#).

Yn ôl erthyglau 4, 5 a 6 Rheoliadau 1069/2009 yr UE, rhaid enwi, casglu a chludo'r deunydd ar gyfer ei waredu heb oedi diangen

Yn y pen draw, cyfrifoldeb y ffermwr / cynhyrchydd da byw yw sicrhau bod carcassau'n cael eu casglu / cludo i safle cymeradwy heb oedi diangen.

### **Heb oedi diangen**

Nid oes diffiniad o 'oedi diangen' a dim ond llys barn all farnu a yw'r rheol 'heb oedi diangen' wedi'i thorri.

Yr Awdurdodau Lleol yw'r corff gorfodi ar gyfer y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac wrth ystyried a fu oedi diangen, byddant yn ystyried amodau'r tywydd a sut y mae'r carcassau yn cael eu storio Maent yn argymhell bod yn rhaid gwacáu bin / dolav ddim mwy na 7 niwrnod ar ôl rhoi'r carcass cyntaf yn y bin. Bydd angen ei wacáu cyn hynny mewn tywydd arbennig o gynnes.

Cymerir bod 'heb oedi diangen' yn golygu cyn gynted ag sy'n ymarferol a rhesymol, gan ystyried amgylchiadau'r achos, er enghraifft, tywydd twym yn denu clêr, drewdod ac ati. Os nad yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau'r oedi neu'n cynnig esboniad rhesymol amdano, gallai Llys Barn farnu bod yr oedi yn oedi diangen. Fodd bynnag, os cymerwn yr eithaf arall a bod carcassau'n cael eu gadael mewn bin/dolav yn ystod cyfnod oer a rhewlyd yn y gaeaf, mae'n debygol na fyddai'r niwsans cynddrwg ac y gellid dadlau pe gadewid nhw am ychydig yn fwy y gallai Llys Barn farnu na fu oedi diangen.

### **Defnyddio cynwysyddion / biniau dolav**

Mae biniau / biniau dolav yn gallu bod yn ddefnyddiol wrth storio / gwaredu stoc marw, yn enwedig yn y sector defaid. Ond rhaid pwysleisio mai cynwysyddion



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

dros dro ydyn nhw, ar gyfer cyfnodau pan geir llawer o farwolaethau e.e. y tymor wyna. Rhaid monitro'r systemau hyn yn effeithiol rhag i ffermwyr 'anghofio' amdany'n nhw a'u gadael am gyfnodau hir heb eu gwacáu.

Rhaid i'r biniau fod yn addas i'r diben, hynny yw rhaid gofalu nad ydyn nhw'n gollwng a bod clawr iddyn nhw. Os caiff y cynhwysydd ei ddifrodi mewn unrhyw ffordd, rhaid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio.

### **Cyfarwyddyd ar gyfer ffermwyr**

Cyfrifoldeb y ffermwr yw gofalu bod y bin/dolav yn cael ei roi mewn lle na all anifeiliaid y fferm ddod i gysylltiad ag e' a bod digon o le i'r cerbyd casglu fynd i'r safle, casglu'r deunydd a gadael y safle heb fynd i fannau cadw anifeiliaid y fferm.

Rhaid i'r ffermwr ofalu bod ganddo ddigon o ddiheintydd i olchi'r cerbydau a sicrhau nad yw bioddiogelwch y fferm yn dioddef.

Pan fydd ffermwr wedi dod o hyd i anifail marw a rhoi'r carcass yn y bin / dolav, dylai gysylltu â'i gasglwr oni bai bod y casglwr yn gweithio system 'rownd laeth' a bod y casglwr yn gwacáu'r bin / dolav bob rhyw ddeuddydd. Yn ystod y cyfnodau prysuraf, e.e. tymor wyna, gallai fod yn dderbyniol cadw llwyth o garcasau gyda'i gilydd yn y bin /dolav am ychydig ddyddiau. Fodd bynnag, ni fyddai'n dderbyniol cadw carcassau yn y bin /dolav am amser hir er mwyn disgwyl iddo lenwi. Ni ddylid cadw carcass ar fferm am fwy na 7 niwrnod, waeth pa system gasglu a ddefnyddir.

Gan ddibynnu ar y system a weithir gan y casglwr unigol, bydd gofyn i'r ffermwr gysylltu â'r casglwr pan fydd carcass i'w gasglu neu bydd y casglwr yn defnyddio system 'rownd laeth' ac yn gwacáu'r bin / dolav bob ryw ddeuddydd.

### **Cyfarwyddyd i Gasglwyr**

Rhaid i'r biniau fod yn lân, yn gyfan ac wedi'u diheintio cyn eu gadael ar y fferm.

Rhaid cytuno â'r ffermwr ble i adael y biniau. Yn ddelfrydol dylid eu rhoi ar arwyneb caled heb fod yn agos i fuarth nac adeiladau'r fferm a heb fod yn agos i anifeiliaid y fferm.

Pan eir â bin o'r fferm, rhaid gadael bin glân wedi'i ddiheintio yn ei le.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Rhaid i gasglwyr gadw at drefniadau bioddiogelwch digonol wrth gasglu biniau/biniau dolav o'r fferm. Dylai'r casglwr gadw sbrei llaw cludadwy ag ynddo ddiheintydd cyffredinol cymeradwy yn ei gerbyd bob amser. Bydd y sbrei yn barod i'w ddefnyddio i ddiheintio olwynion a rhannau allanol y cerbyd. Cyn i'r casglwr adael y safle, rhaid iddo lanhau unrhyw ddom, slyri neu ddeunydd tebyg sydd i'w weld ar y cerbyd ac yna ei ddiheintio. Ewch i wefan Defra i weld rhestr o'r diheintyddion cymeradwy.

Mae'r rheoliadau yn gofyn bod Dogfennau Masnachol yn cyd-deithio gyda'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Rhaid i'r dogfennau masnachol nodi:

- Dyddiad mynd â'r deunydd o'r safle
- Disgrifiad o'r deunydd, gan gynnwys tagiau clust lle bo rhai
- Faint o ddeunydd
- Enw a chyfeiriad y cludwr
- Enw a chyfeiriad y sawl sy'n derbyn y deunydd, a rhif ei gymeradwyaeth os oes ganddo un.
- Rhaid bod o leiaf tri chopi o'r ddogfen fasnachol (un gwreiddiol a dau gopi). Rhaid i'r gwreiddiol gyd-deithio â'r llwyth i ben ei daith.

Wrth gludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion wedi'u prosesu, rhaid ateb gofynion Penodau I, II, III a IV Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1069/2009.

Os ydy'r casglwr yn cynnal system 'rownd laeth', yna cyfrifoldeb y casglwr yw sicrhau ei fod yn casglu ar yr amser a nodwyd. Gallai hynny fod bob dydd neu bob ryw ddeuddydd. Nid oes diffiniad o 'oedi diangen' ond byddem yn disgwyl i anifail marw gael ei gasglu o fewn 36 awr ar ôl cael gwybod ei fod wedi marw.

Dylai casglwyr drafod y gofynion gyda'r ffermwyr i benderfynu ar faint y bin / dolav sydd ei angen ynghyd â phenderfynu ar drefn ei wacáu (system rownd laeth neu gasglu ar gais y ffermwr).

Ni ddylid cadw bin /dolav ar y safle am fwy na 7 niwrnod.

Os gwelir bod ffermwr neu gasglwr yn defnyddio system storio sy'n mynd yn groes i'r canllawiau hyn, gall yr Awdurdod Lleol fel y corff gorfodi o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid gymryd y camau angenrheidiol. Bydd y corff gorfodi yn gweithredu o dan Reoliad 43 Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2014 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Lloegr) 2013.